
Adolygu amserlen y rhaglen ar gyfer clirio'r band 700 MHz

Adolygu cynnydd, risgiau a pharodrwydd

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Heddiw, mae Ofcom wedi cyhoeddi datganiad sy'n nodi ei benderfyniadau o ran dyfarnu 200 MHz o sbectrwm yn y bandiau 700 MHz a 3.6 - 3.8 GHz i alluogi'r diwydiant i ddarparu gwasanaethau sydd â mwy o gapasiti a darpariaeth ehangach, a chynnal technolegau di-wifr newydd, yn cynnwys 5G - y genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol.

Mae'r band 700 MHz yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan Deledu Daearol Digidol (DTT) a Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE). Er mwyn sicrhau bod y sbectrwm ar gael ar gyfer gwasanaethau symudol, mae'r defnyddwyr hyn yn cael eu clirio o'r band drwy raglen sy'n cael ei galw yn clirio 700 MHz. Bydd gwasanaethau DTT yn cael eu symud i ddarnau eraill o sbectrwm ac ni fydd yr amleddau band 700 MHz bellach ar gael i PMSE.¹

Rydym wedi adolygu cynnydd y gwaith clirio 700 MHz i sicrhau bod y rhaglen yn dal ar y trywydd iawn a bod y sbectrwm ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer darpariaeth symudol fel y bwriadwyd. Daeth adolygiadau blaenorol i'r casgliad bod y rhaglen ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau yn Ch2 2020 fel y bwriadwyd, gyda rhai risgiau i'r amserlen honno yn deillio o'r posibilrwydd o dywydd gwael neu ddigwyddiadau annisgwyl o arwyddocâd cenedlaethol.

Rydym wedi cynnal adolygiad cynnydd terfynol wrth i ni nesáu at ddiwedd y rhaglen glirio yn 2020. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r canfyddiadau. Mae ein casgliad cyffredinol yr un fath ag o'r blaen: mae'r rhaglen ar gyfer clirio 700 MHz yn cyflawni yn ôl yr amserlen ac rydym yn disgwyl clirio'r band i'w ddefnyddio gan wasanaethau symudol erbyn mis Mai/Mehefin 2020.

Dim ond crynodeb syml ar lefel uchel yw'r trosolwg hwn.

Mae'r rhaglen ar gyfer clirio 700 MHz yn clirio'r band i'w ddefnyddio gan wasanaethau symudol

- 1.1 O'r sbectrwm mae Ofcom wedi penderfynu ei ddyfarnu, mae 80 MHz ohono yn y band 700 MHz. Mae'r band hwn yn addas iawn ar gyfer cynnig darpariaeth symudol ar draws ardaloedd eang ac o dan do. Gellir defnyddio sbectrwm yn y band hwn i wella lefel y ddarpariaeth symudol ar draws y DU, yn cynnwys y ddarpariaeth llais a data symudol mewn ardaloedd gwledig, a hefyd mewn adeiladau a mannau eraill sy'n fwy anodd eu cyrraedd.
- 1.2 Er mwyn i wasanaethau symudol allu defnyddio'r band 700 MHz, mae'n rhaid clirio'r defnyddwyr presennol o'r sbectrwm. Y defnyddwyr hyn yw DTT a PMSE. Yr enw ar y broses o dynnu defnyddwyr presennol o'r band yw clirio 700 MHz, a'r enw ar y rhaglen waith gyffredinol – gan gynnwys gwaith cynllunio amledd, gwaith seilwaith a sefydlu a

¹ Rydym eisoes wedi cyhoeddi y bydd sbectrwm arall ar gael i PMSE ei ddefnyddio: Sbectrwm newydd ar gyfer PMSE sain https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/62481/New-Spectrum-for-Audio-PMSE-statement.pdf

gweithredu cynllun grant ar gyfer defnyddwyr PMSE – yw rhaglen ar gyfer clirio 700 MHz. Dechreuodd y rhaglen yn 2016.

Rydym wedi cyhoeddi adolygiadau o'r amserlen i wneud yn siŵr bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n brydlon

- 1.3 Pan benderfynasom ryddhau'r band 700 MHz ar gyfer darpariaeth symudol yn Ch2 2020, fe ddywedom y byddem yn adolygu'r amserlen ar gyfer darparu yn 2017.² Pan gynhaliwyd yr adolygiad hwn gennym, gwelsom fod pob un o'r ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn. Daethom i'r casgliad y byddai'r rhaglen ar gyfer clirio yn cyflawni yn ôl yr amserlen ac yn cwblhau yn Ch2 2020 fel y bwriadwyd.³
- 1.4 Dilynwyd hyn gan ail adolygiad flwyddyn ar ôl y cyntaf. Roedd ein casgliadau yr un fath. Roedd pob ffrwd waith ar y trywydd iawn ac roedd cynllunio amledd a chynlluniau seilwaith yn datblygu'n dda ac yn sefydlog. Nid oedd y prif risgiau i'r rhaglen wedi codi.

Rydym wedi cynnal adolygiad terfynol i asesu cynnydd a statws risgiau

- 1.5 Ar hyn o bryd mae disgwyl i'r rhaglen ar gyfer clirio 700 MHz ddod i ben yn Ch2 2020. Rydym wedi adolygu ei chynnydd yn ogystal â'r gweithgareddau cysylltiedig eraill yn erbyn y dyddiad clirio targed.
- 1.6 Rydym wedi ystyried nifer o ffrydiau gwaith a ffynonellau gwybodaeth sy'n cyfrannu. Dyma'r prif feysydd:
- datblygu'r cynllun amledd a bwrw ymlaen tuag at gytundebau cydlynu rhyngwladol;
 - statws y newidiadau i'r seilwaith cynllunio gwaith;
 - cynnydd y rhaglen i greu seilwaith;
 - gwybodaeth a gafwyd o ddigwyddiadau clirio a gynhaliwyd yn ystod 2018 a 2019, gan gynnwys cymorth i wylwyr;⁴ a'r
 - cynllun grant PMSE.

Bydd y band 700 MHz ar gael ar gyfer darpariaeth symudol yn unol â'r amserlen os bydd y gwaith clirio yn dal ar y trywydd iawn

- 1.7 Mae pob un o'r ffrydiau gwaith yn mynd rhagddynt yn unol â'r cynllun. Ni ddaeth y risgiau a ragwelwyd ar gyfer 2019 i'r amlwg. Bydd y band 700 MHz ar gael ar gyfer darpariaeth symudol erbyn Ch2 2020 os bydd y rhaglen glirio yn dal ar y trywydd iawn. Rydym yn

² Maximising the benefits of 700 MHz clearance, ymgynghoriad Ofcom, Mawrth 2016

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/84176/maximising-benefits-of-700mhz-clearance.pdf

³ 700 MHz clearance programme timescale review, datganiad Ofcom Hydref 2017

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/106933/700mhz-clearance-timescale-review.pdf

⁴ Rydym yn defnyddio'r term 'digwyddiad clirio' i ddisgrifio achosion pryd y gwneir newidiadau i amleddau mewn trosglwyddydd sy'n golygu bod angen i wylwyr gymryd camau i ail-diwnio eu hoffer teledu.

crynhoi prif gasgliadau ein hadolygiad yn ôl y ffrwd waith isod. Rydym yn rhoi mwy o fanylion yn adran 2.

Cynllunio amledd

- 1.8 Mae cynllun amledd DTT yn sefydlog ac rydym wedi cwblhau'r trafodaethau ynghylch amledd rhyngwladol ac wedi llofnodi cytundebau gyda phob un o'r gwledydd perthnasol (Iwerddon, Yr Iseldiroedd, Ffrainc a Gwlad Belg).

Gwaith seilwaith a digwyddiadau clirio

- 1.9 Mae'r cynlluniau ar gyfer addasu'r seilwaith trawsyrru darllediadau a rhoi'r newidiadau ar waith yn sefydlog ac yn ddatblygedig iawn ar gyfer gweddill y digwyddiadau clirio yn 2020.
- 1.10 Mae'r gwaith o gyflwyno digwyddiadau clirio yn 2019 ac ar ddechrau 2020 yn dilyn yr amserlen. Mae'r paratodau ar gyfer y digwyddiadau clirio terfynol yn dilyn y cynllun.
- 1.11 Roeddem wedi canfod yn flaenorol rhai risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau gwaith peirianeg cymhleth a allai olygu oedi. Y rhai mwyaf arwyddocaol oedd:
- cyfnodau maith o dywydd gwael sy'n arafu'r gwaith a wneir yn yr awyr agored, yn enwedig gosod antenau ar y trosglwyddyddion mwy; a
 - digwyddiadau annisgwyl a allai atal gwaith seilwaith (fel argyfyngau cenedlaethol neu ddigwyddiadau o ddiddordeb sylweddol i'r cyfryngau) ac a allai beryglu'r amserlen gyffredinol os ydynt yn atal gwaith ar y rhwydwaith darlledu yn ystod cyfnodau o weithgarwch dwys.
- Nid oes yr un o'r risgiau hyn wedi ymddangos i'r graddau fel eu bod yn golygu oedi i'r rhaglen.
- 1.12 Mae gwaith yn cael ei amserlennu i osgoi digwyddiadau darlledu mawr. Ers ein hadolygiad diwethaf, nid oes unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl wedi codi sy'n golygu bod angen oedi gwneud gwaith ar y trosglwyddyddion.
- 1.13 Rydym yn dod i'r casgliad bod y rhaglen ar gyfer clirio wedi gwneud digon o gynnydd i gyflawni yn ôl yr amserlen. Rydym yn disgwyl cwblhau'r broses erbyn 29 Ebrill 2020 fel y bwriadwyd.

Cynllun cyllido'r PMSE

- 1.14 Roeddem wedi penodi Equiniti Ltd i weithredu'r cynllun grantiau i gefnogi perchnogion offer PMSE a oedd yn gorfod gadael y band 700 MHz. Agorodd y cynllun i hawlwr gofrestru a chyflwyno eu hawliadau ym mis Chwefror 2019. Mae Equiniti Ltd wedi bod yn derbyn yr offer a gafodd ei ildio ac yn gwneud taliadau i hawlwr ers mis Gorffennaf 2019 yn unol â'r amserlen ildio a nodwyd ar ôl cofrestru.